# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com @LlaisLlandyrnog

Awst 2024 – Cyfrol 9 – Rhifyn 11


## Ysgol Bryn Clwyd



Roedd ein drama flynyddol yn llwyddiannus. Perfformiodd y plant ‘Something funny happened on the way to Camelot’ ac roedd y gynulleidfa ar ei thraed yn cymeradwyo ar y diwedd. Diolch yn fawr i bawb a ddaeth i weld y sioe a’i mwynhau. Fel gwobr, fe aethon ni i’r traeth y diwrnod wedyn a chawson ni dywydd ac amser da iawn.

Diolch i bawb yn ein cymuned sydd wedi’n cefnogi ni eleni. Rydyn ni’n edrych ymlaen at adeg gyffrous yn y flwyddyn academaidd nesa.





Mae’r holl blant yn mwynhau eu gwersi ysgol fforest y tymor hwn. Gwnaeth Blwyddyn 3 filwyr coblynnod ar ôl ymweld â chastell Conwy. Aeth y dosbarth babanod ar daith i gastell Dinbych a’r ffynnon ddofn aeth â’u sylw nhw.

# Pytiau newyddion y pentre

Llongyfarchiadau i Chloe a Matthew Lewis ar enedigaeth eu merch, Isla. Hefyd i'r nain a'r taid balch, Doreen a Gary.

Llongyfarchiadau i Gwyn (Gader Goch gynt) ac Anita, Wollongong, Awstralia ar ddod yn daid a nain i Anna Joy, merch fach i Natalie a Josh.

Pen blwydd hapus hwyr i Jack Palin a Karen Morris a fu'n dathlu ym mis Gorffennaf.

Cydymdeimlwn â Jonathan Hulme, Pentrefelin Uchaf – bu farw ei dad, Ken Hulme ar 28 Mehefin. Hefyd â Rheinallt, Hen Gapel a'r teulu, yntau wedi colli ei fam.

Dymuniadau da i Joyce Catteroll, sydd wedi symud i fyw at ei merch yn Heswall.

---

# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Llun | 5ed | Trefoil Guild, 2pm |
| Maw | 6ed | Sefydliad y Merched, 7pm |
| Llun | 12fed | Grŵp gweu a chrosio, 10am |
| Llun | 12fed | Cyfarfod pwyllgor y *Llais*, 7pm |
| Llun | 19eg | Grŵp gweu a chrosio, 10am |
| Mer | 21ain | Tuesday Club |
| Iau | 22ain | Gweithdy crefftau, 7–9pm |
| Sad | 24ain | Gweithdy crefftau, 10am–12pm |

I hurio'r Ystafelloedd Coco, anfonwch e-bost at Emily Williams: emilylloyd1@tiscali.co.uk

# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Sad | 3ydd | Grŵp crefftau, 10am–4pm |
| Maw | 6ed | Pwyllgor y Sioe Flodau 7pm |
| Llun | 26ain | Sioe Flodau a Chynnyrch |

I hurio Neuadd y Pentre, cysylltwch ag Ivan Butler: 07799570549 neu anfonwch e-bost at ivanbutler897@btinternet.com

**Eglwys St Tyrnog**

| | | |
|---|---|---|
| 4ydd | 11.15am | Cymun Bendigaid |
| 11eg | 11.15am | Cymun Bendigaid |
| 18fed | 11.15am | Boreol Weddi |
| 25ain | 11.15am | Cymun Bendigaid |

# Tŷ Ceffyl Bach

**Yr Haf yn Nhŷ Ceffyl Bach**
**Llandyrnog**
**Dydd Sadwrn, 24 Awst 2024**

Dewch i weld sut mae ein hartistiaid,
ein crefftwyr a'n celf pedolau
yn dod yn eu blaenau.

Anrhegion unigryw i bawb yn y teulu.

Bydd prosecco a mefus ar gael!
Dewch draw!



# Capel y Dyffryn

**Gwasanaethau Bro**
Dydd Sul 14, aeth nifer o aelodau ar bererindod i Lanuwchllyn, ger y Bala. Yno cawsom wasanaeth awyr agored ar ben bryncyn, Pen Bryn Eurych, gyda golygfa hyfryd o Lyn Tegid a'r wlad o gwmpas. Roedd y gwasanaeth awyr agored hyfryd yng ngofal y Parch. Carwyn Siddall, a mwynhawyd paned a chacen wedi ei drefnu gan aelodau Capeli Bro Llanuwchllyn.



**Diolch o galon** i bawb a gyfrannodd tuag at y Bore Coffi 13 Gorffennaf – gwnaed elw o £543 tuag at adeiladau'r Capel.

## Rhaghysbysiad

**Capel y Dyffryn, Llandyrnog**

**Cyflwyniad Cerddorol**
**dan arweiniad**
y Parch Robert Parry, BMus, BD, Lerpwl
Pnawn Sul Medi 22ain am 5 o'r gloch

**Llywydd:** Yr Athro Elwen Mair Evans CB
**Cyflwynydd**: Nic Parry, Llanbedr DC

Tocyn £10, plant am ddim

Elw at adeiladau'r capel
a Hosbis St Cyndeyrn

# Hwb Pafiliwn Llandyrnog



Dyma ni wedi rhoi ein ffedogau coch i'w cadw am y tro olaf ac rydym yn diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi'n cefnogi dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Dechrau'r daith oedd creu modd i gael pobl at ei gilydd ar ôl y pandemig, gyda chymhorthdal gan y Gronfa Cynhwysiant Cymdeithasol ac rydym yn gobeithio bod ein menter wedi gwneud hynny. Roedd dod i'ch adnabod a gweld cyfeillgarwch yn ffynnu yn brofiad hyfryd ac rydym yn siŵr y byddwch yn parhau i gefnogi digwyddiadau yn y pentref a'r Siop Gymunedol pan fydd yn agor.

Roedd ein Hwb olaf yn llwyddiannus iawn a bydd yr holl gyfraniadau y tro yma yn mynd at Ambiwlans Awyr Cymru. Cyfrannwyd £335 ar y diwrnod a byddwn yn gallu cyfrannu cyfanswm o £1266. Hefyd cyfrannwyd eitemau addas i Fanc Bwyd Dinbych.

Diolch i bawb ohonoch – gan Anne, Glynis, Penelope, Carolyn a Gwen.



# Gweithdai crefftau

Dewch i ddysgu crefft newydd bob mis, a gobeithio y bydd gennych eitem orffenedig erbyn diwedd y sesiwn. £25 yw cost y gweithdai, ac mae hyn yn cynnwys yr holl ddeunyddiau, te, coffi a bisgedi. Bydd mins peis ar gael yng ngweithdy mis Rhagfyr. Os oes gennych ddiddordeb, anfonwch neges at Helen, hbrookhouse@yahoo.co.uk, am ragor o fanylion.

**Mis Awst: Argraffu dail**
Defnyddio planhigion naturiol i argraffu patrwm ar ddarn o bapur neu ffabrig (yn yr achos hwn, cerdyn a bag cotwm).
Dydd Iau, 22 Awst 7–9pm
Dydd Sadwrn, 24 Awst 10am–12pm

**Medi: Darn o gelf i'w roi ar wal, gan ddefnyddio gwŷdd pegiau**
Defnyddio gwŷdd syml i greu darn o gelf i'w roi ar wal, gan ddefnyddio gwlân wedi'i liwio'n naturiol.
Dydd Iau, 19 Medi 7–9pm
Dydd Sadwrn, 21 Medi 10am–12pm

**Hydref: Breichled o weiren gopr**
Gwneud breichled copr a gleiniau gwydr.
Dydd Iau, 24 Hydref 7–9pm
Dydd Sadwrn, 26 Hydref 10am–12pm

**Tachwedd: Torch alwminiwm**
Ailgylchu tuniau alwminiwm i greu torch i addurno'ch cartref.
Dydd Iau, 21 Tachwedd 7–9pm
Dydd Sadwrn, 23 Tachwedd 10am–12pm

**Rhagfyr: Addurniadau coeden Nadolig macrame**
Dydd Iau, 19 Rhagfyr 7–9pm

**Cyngor Sir Ddinbych**
**Merfyn Parry**
Manylion cyswllt:
Ffôn: 07836 208446



*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*
*Neu gadewch neges ar Facebook*

# Ymgynghoriad cyhoeddus

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gwneud arolwg ar gynllun newydd ar gyfer toiledau cyhoeddus. Ydych chi'n sylweddoli nad oes rhaid i'r Cyngor ddarparu toiledau cyhoeddus yn ôl y gyfraith? Ond mae angen iddo gael strategaeth toiledau cyhoeddus – a dyna'r rheswm am yr arolwg ar-lein – i ddangos ei fod yn gwrando ar anghenion y boblogaeth ac yn eu diwallu. Bydd cymryd rhan yn yr arolwg yn helpu'r cyngor i ddeall beth sy'n bwysig i chi fel trigolion Sir Ddinbych. Mae'r arolwg ar wefan Sir Ddinbych: https://www.denbighshire.gov.uk/cy/eich-cyngor/ymgynghoriadau/ymgynghoriadau.aspx. Rydym yn eich annog i ateb yr arolwg ar-lein, sy'n gofyn am ddim mwy na phum munud o'ch amser. Mae ar agor tan 15 Medi 2024.

# Llwyddiant y winllan

Llongyfarchiadau lu i Gwen a Rhys Davies, Gwinllan y Dyffryn, ar ennill rhagor o gydnabyddiaeth am eu gwinoedd lleol ardderchog. Cyflwynwyd Tlws Riedel dros Gymru iddyn nhw yn seremoni wobrwyo Wine GB yn y Drapers' Hall, Llundain ganol mis Gorffennaf.






Yn anffodus mae Emyr Morris wedi penderfynu rhoi'r gorau i fod yn ysgrifennydd y cwmni ac yn gyfarwyddwr. Mae gweddill y cyfarwyddwyr wedi gofyn yn unfrydol i Emyr aros ar y pwyllgor. Er bod Emyr yn garedig iawn wedi cytuno i gwblhau ychydig o dasgau nes y byddwn yn gallu penodi Ysgrifennydd Cwmni newydd, mae'n teimlo mai dyma'r amser iawn iddo ymddiswyddo.

Ar ôl dwy flynedd o ymdrechion diflino a'r amserlen ar gyfer y siop yn agor bellach yn glir iawn, mae'r cyfarwyddwyr yn gobeithio y bydd y gymuned gyfan yn ymuno â ni i ddiolch i Emyr am ei weledigaeth wych a'r egni a ddangosodd ar ran y gymuned i droi'r weledigaeth honno i ailagor y siop. Dylai hyn adael effaith gadarnhaol barhaol ar y pentref a'i fywyd. Ni fyddai'r siop yn ailagor heb weledigaeth ac egni Emyr ac wrth ddiolch yn ddiffuant iddo am ei ymdrechion, roedd hi'n anodd i weddill y Cyfarwyddwyr dderbyn penderfyniad Emyr i roi'r gorau iddi.

Os oes gan unrhyw un yn y gymuned brofiad fel Ysgrifennydd Cwmni neu os hoffai gymryd rhan yn helpu i agor a rhedeg y siop, yna cysylltwch â patkeefewales@gmail.com.

- 31 Gorffennaf –y prif gontractwyr yn gorffen eu gwaith
- 1 Awst – cyflwyniad ar y cyfryngau cymdeithasol i'n dau reolwr ar y siop
- 10 Awst – y tŷ ar gael i'w rentu drwy gwmni Monopoly Dinbych: denbighshire@monopolybuysellrent.co.uk
- 31 Awst – y gwaith ar y siop wedi'i orffen
- 1 Medi – y ddau reolwr siop yn dechrau eu gwaith gyda hyfforddiant i fod yn is-bostfeistri'r swyddfa bost
- 14 Medi – gosod y ffenest siop newydd
- 7pm, 17 Medi – cyfarfod blynyddol, yn cynnwys taith o gwmpas y siop (mae angen i 30 o gyfranddalwyr, o leiaf, i fod yn bresennol i greu cworwm)
- Medi – y siop gymunedol a'r swyddfa bost yn agor



# Newyddion pêl-droed

## Twrnamaint pêl-droed merched

Fe wnaeth tîm pêl-droed merched Llandyrnog yn dda iawn yn y twrnamaint yn ddiweddar. Cyrhaeddodd y tîm y rownd gyn-derfynol, gan golli ar giciau o smotiau i'r tîm a aeth yn ei flaen i ennill y twrnamaint, sef Henllan. Da iawn bawb, rydych yn cynnal enw da pêl-droed yn y pentre. Daliwch ati i ymarfer y ciciau o'r smotyn!






## Cynghrair yr Haf dan 16 oed

Roedd gan Landyrnog ddau dîm dan 16 yn y twrnamaint eleni ac fe wnaethon nhw'n arbennig o dda. Er bod tîm B heb fynd yn bellach na'r grŵp cyntaf, aeth tîm A i'r gêm derfynol am y trydydd tro yn olynol. Gêm gyfartal oedd hi yn y diwedd, a cholli ar giciau o'r smotyn.

Mae Jimmy McNally yn diolch i'r chwaraewyr am eu gwaith caled, ac yn arbennig i'w gynorthwywyr gwych, Ethan Plumb a Mally Hughes.



Cafwyd noson wobrwyo wych ar gyfer timau Cynghrair yr Haf ar 20 Gorffennaf. Llongyfarchiadau i'r holl enillwyr:

Chwaraewr y chwaraewyr – Pat Hinchcliffe

Chwaraewr ifanc – Leo Jones

Chwaraewr y rheolwr – Tomos Roberts

Chwaraewr y cefnogwyr – Pat Hinchcliffe

Arwr y clwb – Jimmy McNally

Y prif sgoriwr – Craig Jones

Chwaraewr y chwaraewyr, tîm y merched – Nisha Roberts

Chwaraewr y rheolwr, tîm y merched - Alisha Whitehead-Hughes

Chwaraewr y cefnogwyr, tîm y merched – Alys Evans

# Rysáit

**Pasta cyw iâr a chaws**
Digon i 4

**Cynhwysion**
Pasta o'ch dewis
2 frest cyw iâr
1 nionyn, wedi'i dorri'n fân
200g o fadarch, wedi'u sleisio
1 clof o arlleg, wedi'i dorri'n fân
200g, neu yn ôl eich chwaeth, o gaws â blas cryf
75g blawd plaen
75g margarin neu fenyn
300ml llefrith
Pupur a halen
Nytmeg

**Dull**
Coginiwch y pasta mewn dŵr berw a'i ddraenio.
Torrwch y cyw yn ddarnau bach a'u ffrio mewn ychydig o olew. Tynnwch nhw oddi ar y gwres a'u rhoi i'r naill ochr.
Ffrïwch y madarch, y nionyn a'r garlleg.
Toddwch y margarin neu'r menyn yn ara deg, ac ychwanegwch y blawd.
Ychwanegwch y llefrith yn araf nes bydd y cymysgedd yn tewychu.
Ychwanegwch y caws a choginiwch y saws nes y bydd y caws wedi toddi.
Ychwanegwch yr halen a'r pupur a'r nytmeg, fel rydych chi'n ei hoffi.
Rhowch y cyw, y nionod, y madarch a'r pasta mewn dysgl a thaenwch gaws wedi'i gratio ar ei ben.
Coginiwch mewn popty 150 °C (ffan) am ryw 25 munud nes bod y caws yn lliw euraid.
Mwynhewch gyda garnis salad.

*Carolyn Langford Jones*

# Undeb y Mamau

Yn ein cyfarfod ym mis Gorffennaf, clywsom am daith ffydd y Parch. Alyson Goldstein. Soniodd am ei hanhawster yn cael hyd i gymuned eglwysig a oedd yn teimlo'n groesawgar, ac am ei hymgais gyntaf i gael ei hordeinio yn cael ei wrthod. Roedd angen cryn ddewrder a gwydnwch i ymgeisio eto, ond cafodd ei derbyn yr ail dro. Erbyn hyn mae hi'n offeiriad ordeiniedig, yn gofalu am eglwys Llanbedr. Roedd ei hanes yn ein hysbrydoli ac yn procio'r meddwl.

Mae Dafydd Roberts a Ron Davison yn diolch yn fawr i bawb a gefnogodd y bore coffi. Bydd y swm ardderchog o £600.50 yn mynd tuag at eu hymgyrch codi arian at Prostate Cancer UK a Lawcare, yr elusen iechyd meddwl ar gyfer sector y gyfraith, drwy ddringo Mynydd Kilimanjaro y mis nesaf. Os oeddech yn methu bod yn bresennol, ond byddech yn hoffi cyfrannu, ewch i https://www.justgiving.com/crowdfunding/dafydd-roberts-1.


Mike Neumann
Printers Ltd

- Business printing
- Personalised printing
- Office supplies
- Helium balloons



01745 814067
07766 807498

41 Vale Street, Denbigh LL16 3AH
neumannprinters@aol.com
neumannprintersdenbigh.co.uk

# Thomas Howell – y chwedl a'r etifeddiaeth

Mwynhaodd aelodau Clwb Probus Dinbych a'r Cylch ginio hyfryd arall yng Ngwesty'r Oriel, Llanelwy, yn eu cyfarfod ym mis Gorffennaf. Y siaradwraig wadd oedd Wendy Grey-Lloyd a roddodd sgwrs am 'Thomas Howell – Y chwedl a'r etifeddiaeth'.

Credir bod Thomas Howell wedi ei eni yn 1480 yn Sir Fynwy a bu farw yn Seville tua 1540 – bu'n byw trwy deyrnasiad pum brenin. Roedd yn brentis brethynnwr – *draper* – ym Mryste cyn symud i Lundain i fod yn frethynnwr masnachol. Bu'n llwyddiannus iawn yn gwerthu brethyn i Sbaen, Portiwgal a'r Caribî, hefyd yn mewnforio nwyddau moethus fel gwin, sebon, deunydd sidan, damasg, olewau a syltanas – gan ddod yn ddyn hynod gyfoethog.

Daeth yn Rhyddfreiniwr Llundain yn 1507 a thalodd i fod yn aelodau o'r Worshipful Company of Drapers – un o Gildiau Llundain a oedd yn gwarchod cwsmeriaid a gweithwyr. Etholwyd Thomas Howell yn Warden y Drapers' Company yn 1527.

Cadwodd Thomas gofnodion ariannol hynod daclus mewn llyfrau cyfrifon ac ef oedd y cyntaf i ddefnyddio'r dull cofnodi dwbl. Defnyddir y dull hwn hyd heddiw.

Roedd yn briod ac yn hynod gyfoethog ond doedd ganddo ddim plant. Roedd yn ddyngarwr o fri ac ysgrifennodd tair ewyllys. Yn yr ewyllys gyntaf roedd yn mynd i droi ei gartref, Tower House, yn ysgol i ddeugain o blant tlawd. Hefyd, byddai'n rhoi 12 dwcat y flwyddyn i bob un am addysg prifysgol, ond newidiodd ei feddwl.

Pan fu farw, darparodd ei ewyllys (a ysgrifennwyd yn 1540 yn Seville, Sbaen ar gyfer '*maiden orphans of his kin*'. Pan fydden nhw'n priodi, byddai pob un yn cael 100 dwcat. Ond, roedd ysgutorion yr ewyllys yn methu cael hyd i'r '*maiden orphans*', felly buddsoddwyd mewn eiddo yn lle hynny. Prynwyd gorsaf Cannon Street a thŷ Thomas Cromwell (ar ôl iddo gael ei ddienyddio, prynwyd y tŷ oddi wrth Henry VIII ar gyfer



merched tlawd amddifad â'u gwreiddiau yng Nghymru.

Hefyd gadawodd Howell 12,000 dwcat i'w rhoi i Wardeniaid Drapers' Hall, Llundain. Y bwriad oedd eu buddsoddi i ddarparu gwaddol – *dowry* – i ferched amddifad. Roedd buddsoddiad y Wardeniaid mewn tir ac eiddo wedi cynyddu mor dda, erbyn 1853 roedd yn ddigon i'r Drapers' Company sefydlu Ysgol Howell, Dinbych a Llandaf.

Gofynnodd Aelod Seneddol Sir Ddinbych i'r Drapers' Company am arian i sefydlu ysgol yn Ninbych a bu'n llwyddiannus. Cafodd ei chodi i ddarparu addysg i ferched amddifad, yn ogystal â llety a dillad. Roedd yr ysgol yn cyflogi sawl un o drigolion Dinbych .

Y pensaer oedd Decimus Burton a ddyluniodd hefyd Bwa Wellington yn Hyde Park Corner yn Llundain.

Pan oedd Wendy yn athrawes yn Ysgol Howell, Dinbych, roedd 495 o ferched yn lletya yno ac mae hi'n credu bod dros hanner y rheini yn cael eu haddysg am ddim neu yn rhatach oherwydd Thomas Howell.

Bydd cyfarfod nesaf Clwb Probus Dinbych a'r Cylch ddydd Llun, 5 Awst. Mae croeso cynnes yn disgwyl aelodau newydd. Am ragor o wybodaeth ewch i wefan y clwb, denbighprobus.com, neu cysylltwch â'r Swyddog Aelodaeth, Andrew Faulker, am ragor o fanylion: afaulkner@btinternet.com, 07542 022391.




Bydd ein sioe flynyddol yn digwydd ymhen ychydig wythnosau ddydd Llun, 26 Awst. Ac nid sioe cynnyrch gardd yn unig mohoni: mae dosbarthiadau coginio, crefftau (oedolion a phlant) a ffotograffiaeth. Mae croeso i bawb gystadlu a does dim rhaid talu i wneud hynny.

Mae ffurflenni cystadlu yn y rhaglen – dylai pob cartref fod wedi cael copi ohoni, ond mae rhagor ar gael gan yr ysgrifennydd. Hefyd, mae rhaglenni a ffurflenni cystadlu electronig ar gael hefyd – anfonwch e-bost at llandyrnogshow@gmail.com.

Os hoffech chi helpu i osod y neuadd a'r babell ar gyfer y sioe, neu stiwardio yn y sioe, cysylltwch â'r ysgrifennydd ar e-bost neu galwch yn Cross Keys.

Eleni fe wnaethon ni gais llwyddiannus am grant gan Gronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog. Bydd y grant yn cyfrannu at dalu costau'r sioe, ond hefyd yn talu am offer newydd i Neuadd y Pentref. Mae hyn yn cynnwys 20 bwrdd ysgafn newydd ac ychydig o bebyll dros dro. Rydym yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth y Gronfa.

CRONFA FFERM WYNT COEDWIG CLOCAENOG • CLOCAENOG FOREST WIND FARM FUND

# Llan Llanast




Yn sesiwn Mis Gorffennaf, dysgon ni am y Gemau Olympaidd a'r ffagl Olympaidd a'r naill wirfoddolwr ar ôl y llall yn ei chario nes iddi gyrraedd Paris. Oeddech chi'n gwybod y bydd 10,000 i wirfoddolwyr yn cymryd rhan yn Ffrainc?

Gwnaethon ni gylchoedd Olympaidd o bapurau papur, a bisgedi, medalau a ffaglau. Dymunwn yn dda i dîm Prydain, ond rydyn ni'n aelodau o Dîm Iesu – yn hwn mae pawb yn ennill! Dydy Iesu ddim yn dymuno i ni fod y gorau un, ond i wneud pob peth hyd eithaf ein gallu.

Ni fydd Llan Llanast ym mis Awst, ond byddwn yn ein holau ym mis Medi.




# Senglau Sain 1969-1990

Label recordiau enwocaf Cymru yw Recordiau Sain Cyf, a sefydlwyd yng Nghaerdydd gan Dafydd Iwan a Huw Jones, a'r gŵr busnes, Brian Morgan Edwards. Ei nod oedd bod yn gartref i gerddoriaeth roc a gwerin Gymraeg, oherwydd roedd hi'n anodd i gerddoriaeth fel hyn 'dorri trwodd' i farchnad y Deyrnas Unedig. Erbyn hyn mae Sain yn cynhyrchu cerddoriaeth draddodiadol, gwerin, roc, hip-hop, rap, canu gwlad a cherddoriaeth glasurol.

Mae holl senglau sain (1–140) ar gael rŵan i'w ffrydio a'u lawrlwytho ar Spotify. Maen nhw'n cynnwys amrywiaeth eang iawn o gerddoriaeth. Mae'r teitl cyntaf un yng nghatalog y label, 'Dŵr', gan Huw Jones wedi'i chynnwys, a sawl record cynnar gan artistiaid enwog fel Dafydd Iwan, Meic Stevens, Eleri Llwyd a Heather Jones.

Mae senglau 1970 yn cynnwys nifer o ganeuon protest a gwleidyddol, ond cerddoriaeth ysgafn, llawn hiwmor hefyd.




Roedd recordiau gwerin a cherdd dant hefyd yn boblogaidd yr adeg hon. Mae'r caneuon ar restr chwarae Spotify yn cynnwys pump gan Driawd Menlli – *Geiriau*, *Postman*, *Ynys Bellennig*, *O flwyddyn i flwyddyn* ac *Yfory*. Un o aelodau'r triawd hwn oedd Elwyn Evans, Ger y Llan ac redden nhw'n boblogaidd iawn.

Chwiliwch am *O'r Archif - Senglau Sain (1969 -1990)* ar Spotify, a 288-292 yw rhifau'r caneuon hyn.






# Gild Trefoil

Roedd gan aelodau'r Trefoil ddiddordeb mawr mewn sgwrs ar iechyd meddwl gan Karen Roberts. Soniodd am hanes triniaeth afiechyd meddwl a chymaint mae wedi newid dros y blynyddoedd. Enillodd hi'r raffl a mwynhaodd baned gyda ni. Yn ein cyfarfod nesaf byddwn yn cael paned a chacen yn y Lodge, Llanrhaeadr.

# Tuesday Club

Yn anffodus, bu'n rhaid canslo cyfarfod mis Gorffennaf oherwydd afiechyd y trefnydd. Byddwn yn cyfarfod am baned a sgwrs bnawn dydd Mercher, 21 Awst am 2 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb!

# The Morning Ride by Jane Borthwick

*Out of the village past tall trees and the first cat stalking its prey in endless fields*
*Past the farm where the calves feed hungrily on winter mornings*
*Up sleepy stream lane, babbling peacefully amongst white columbine hedges*
*To the white corner cottage and the long toil up towards Moel Arthur*
*The sloping red tiled roof with views beyond*
*and the Clwydian range in all its glory*
*Glimpses of barley fields and distant wind turbines powering away*
*Swallows on the wing and goats having their breakfast, Swiss sheep milling about*
*Pub landlord busy cleaning for the day*
*Some workers starting on a gatepost*
*Tall coloured delphiniums swaying on the cosy corner before the sandstone alley*
*Long straights past dog walkers and an oh so quiet school*
*A bench to reflect on for weary walkers*
*Hellos to those up and enjoying the day*
*New houses and old, all named, and another sleepy school waits for children*
*The white horse, a place for cosy camaraderie looking sleepy for the day*
*Big houses set in parkland*
*the chateaus of the vale*
*Ruthin bustling in the distance*
*and the egg farm starting for the day*
*A cosy care home of red brick awakens*
*then friends' houses*
*Tony's beautiful garden singing out and the lonely cherry tree on the hill*
*A house I once visited many moons ago flashes by whilst wheeling down in the morning rush hour of workers making their way off before the weekend*
*Down and on past youngsters on tractors cutting fresh-smelling sileage*
*The bus stop travellers passing the time of day*
*Dogs saying good morning with their owners chatting aimlessly*
*On past the terraced cottages and homes of the village*
*Sun shining on rooves and gardens, endless sky*
*To the place we call home, Llandyrnog*
*fresh for another day.*

Diolch i Jane am rannu ei gwaith â darllenwyr y *Llais*.

# Dod i adnabod ... Margaret Williams

**O ble wyt ti yn enedigol?**
Cefais fy magu ar fferm deuluol ym mhentref Bryn Saith Marchog, hanner ffordd rhwng Rhuthun a Corwen. Fi oedd yr ail o saith o blant – pump brawd ac un chwaer.
Un peth oedd yn unigryw am y fferm oedd ein bod yn cynhyrchu ein trydan ein hunain oherwydd bod fy nhaid wedi gosod 'generator' trydan tua ugain mlynedd i mi gael fy ngeni.

Fy atgof cyntaf yw Tada yn mynd fy mrawd hynaf a minnau i ysgol Llanelidan a Mam wedi paratoi brechdan triog ac wedi ei lapio mewn papur brown i mi fwyta gyda'r llaeth boreol. Byddem yn cerdded y ddwy filltir gartref o'r ysgol.

**Beth oedd dy swydd gyntaf?**
Wedi pum mlynedd yn Ysgol Brynhyfryd dilynais gwrs ysgrifennydd am ddwy flynedd yng Ngholeg Wrecsam. Buais yn ffodus o gael swydd gyda chyfreithwyr yn Rhuthun lle buais yn gweithio am saith mlynedd – dyna oedd fy ngholeg lle dysgais lawer am sawl agwedd o fywyd.

**Lle cwrddaist ti y gŵr?**
Cwrddais a fy ngŵr Rod mewn dawns ffermwyr ifanc yn y Rhyl ac wedi i ni briodi yn 1971 aethom i fyw yn Nhalacharn, Sir Gaerfyrddin lle roedd Rod yn gweithio fel cynghorwr amaethyddol. Roeddem yn byw gyntaf yn reit agos i gartref Dylan Thomas, y 'Boathouse', ardal ddiddorol dros ben lle wnaethom ffrindiau oes.

Ein hail gartref oedd byngalo bychan yng Nghaerfyrddin a buais eto yn gweithio i gyfreithwyr am tua dwy flynedd cyn geni ein mab hynaf, Caerwyn.

**Pryd symudaist ti 'nôl i'r Gogledd?**
Yn 1975 buodd Rod yn ddigon ffodus i gael swydd gydag adran amaeth Banc Midland ac yna symud i Ffordd Brwcws, Dinbych lle cafodd ein hail fab, Alun, ei eni. Ein dymuniad yr adeg



*Margaret a Paulette, o Biebertal, gefeilldref Dinbych*

yna oedd byw mewn tyddyn ac yn 1977 symud i Rhiwbebyll Isaf.

**Ble cefaist ti'r awydd i deithio?**
Fel oedd yr hogiau yn tyfu roeddem yn awyddus i weld sut roedd pobol eraill y byd yn byw a buon ni'n teithio gyda nhw i nifer o wledydd Ewropeaidd, Seland Newydd, Gogledd America a Rwsia!! Yn y blynyddoedd diweddaraf den ni hefyd wedi teithio i Dde a Chanolbarth America, China a gwledydd eraill yn Asia.

**Beth am ddiddordebau eraill?**
Rydym yn aelodau brwd o Gymdeithas Gefeillio Dinbych ac yn ymweld â thref fechan o'r enw Biebertal yn yr Almaen bob yn ail flwyddyn a chroesawu Martin a Paulette (sydd yn wreiddiol o Vietnam) yma i Landyrnog. Rwyf yn mwynhau bod yn aelod o Ferched y Wawr, Dinbych a chael gwrando ar nifer o ferched diddorol sydd a stori dda i'w dweud. Gyda nifer o ffrindiau dwi hefyd yn aelod o Bwyllgor Mencap Dinbych.

# Dod i adnabod ... Margaret Williams

Cychwyn da i'r wythnos yw cael gwersi Yoga yn Nhrefnant – cymdeithas dda o ferched sydd yn mwynhau ceisio cadw'n heini ac wedyn cael sgwrs dros baned o goffi a cacen. Wedi'r Yoga dwi'n teimlo hynny'n well ac yn iachach.

Am sawl blwyddyn buais yn aelod o'r Samariaid, yn ateb galwadau yng Nghanolfan y Rhyl. Dyna lle dysgais fy mod mor ffodus o fagwraeth gadarn a bod yn aelod o gymdeithas gariadus. Yn aml iawn nid oeddwn yn gallu credu rhai o'r problemau cymdeithasol a theuluol ond roeddwn yn mwynhau ceisio rhoi cysur iddynt a chlust i wrando – ond byth i feirniadu a chynghori.

Gydag Anwen Davies rwy'n helpu rhedeg Clwb Dydd Mawrth (sydd yn cyfarfod ar ddydd Mercher!). Cyfle da eto i gyfarfod rhai o drigolion y pentref a chael gwahanol westeion i roi sgwrs.

**Beth sy'n dy wneud di'n flin?**
Dwi ddim yn or-hoff o bobol sy'n cwyno yn ddiddiwedd yn aml iawn am bethau reit pitw.

**Beth yw dy hoff drysor?**
Mae'n debyg mai fy hoff drysor yw lluniau'r teulu, yn arbennig o deulu fy chwaer sydd yn byw yn Canada.

Yn ddiweddar roedd fy mrawd Eifion yn dathlu ei ben blwydd yn wythdeg a braf oedd cael teuluoedd y saith ohonom ynghyd, a chyfle i siarad ag Elizabeth a'i theulu yn Canada. Nagoes – does unman ymhell iawn yr oes yma!


DBP
Denbigh
Building
Plastics
SUPPLIERS & INSTALLERS
U_PVC windows, doors, rockdoors, secondary double glazing, sealed units. Conservatories, porches, garage doors, fascias, gutters, dry verge system, Firestone rubber roofing and canopies.

Unit 7
Colomendy Industrial Estate
Denbigh LL16 5TA
01745 818849
**Open Mon—Fri 7.30am—5 pm**
**Sat 9 am—12 pm**


# Chwilio am drysor

Mae'n debyg bod Llangwyfan yn denu llawer o bobl sydd â synhwyrydd metalau – *metal detector*! Yn y dechrau, dim ond un oedd yn chwilio yn y caeau, ond wrth i'r amser mynd yn ei flaen, mae rhagor o bethau diddorol wedi'u darganfod a rhagor o bobl wedi dod. Hyd yn hyn, maen nhw wedi cael hyd i eitemau o gyfnod y Rhufeiniaid, y Canol Oesoedd, y cyfnod Sioraidd ac oes Victoria, cyllyll a ffyrc o'r Sanatoriwm, a hyd yn oed casys bwledi Spitfire o gyfnod yr Ail Ryfel Byd. Mae'r bryniau wedi gweld rhyfeddodau!

Rydym wedi cael addewid y bydd y *Llais* yn cael hanes llawn y gweithgareddau a'r darganfyddiadau cyn bo hir.



# Hanesion Hazel

Ydych chi, fel fi, yn cael llond bol ar rybuddion eithafol am y tywydd gan y Swyddfa Dywydd? Maen nhw wedi troi at ‘rybuddion seiliedig ar effaith’ – hynny yw, rhybuddion sy’n seiliedig ar lefel effeithiau posibl y tywydd, a pha mor debygol yw hi y bydd yr effeithiau hynny’n digwydd. Lliwiau coch, oren a melyn sy’n cyfleu’r rhain. Ond dydy ein pobl tywydd ddim yn gywir bob tro – yr enghraifft enwocaf oedd Michael Fish yn datgan yn 1987 nad oedd corwynt ar ei ffordd. Y noson honno, tarodd ‘cylchwynt alltrofannol’ – *extratropical cyclone* Loegr. Cafwydd corwyntoedd yn ne Lloegr, lladdwyd 18 o bobl, ac achoswyd gwerth tua £2 biliwn o ddifrod.

Daeth fy nhref enedigol, Sevenoaks yng Nghaint, yn enwog pan gollodd chwech o’i saith derwen ar 16 Hydref, ond difrodwyd dros 15 miliwn o goed drwy’r wlad. Dyma’r adeg pan mae angen rhybudd tywydd arnom ni. Mae’r Swyddfa Dywydd yn eu rhoi nhw am ddim byd mwy na – tywydd! Glaw trwm ym mis Gorffennaf neu oerfel ym mis Rhagfyr.

Dwi wrth fy modd yn astudio’r tywydd a thros y blynyddoedd dwi wedi cael sawl ‘gorsaf dywydd’. Ceiliog y gwynt syml oedd yr un gyntaf, ar ffurf dyn bach yn eistedd ar feic. Byddai’r gwynt yn gwneud iddo bedlo’n gyflymach. Erbyn hyn mae gen i ddyfeisiau digidol mwy cymhleth gyda synwyryddion sy’n anfon signal i’r derbynnydd yn y gegin, gan roi’r tymheredd i fi. Clyfar iawn, onid e?!

Yn draddodiadol, baromedrau oedd yn rhoi rhagolygon y tywydd. Mae hen faromedr hir fy rhieni gen i o hyd, mae hwnnw’n mesur pwysedd yr aer. Bydden nhw’n ei daro’n ysgafn i sicrhau bod yr arian byw yn codi ac yn gostwng. Mae baromedr yn mesur pwysedd yr atmosffer mewn lleoliad penodol ac mae ganddo diwb gwydr sydd wedi cau ar y top, yn eistedd mewn powlen agored llawn arian byw ar y gwaelodd. Mae rhai cynlluniau traddodiadol yn dangos beth i’w ddisgwyl, fel tywydd braf neu sych, neu law.

Prynais fy maromedr cyntaf ar ddechrau’r




1980au o’r hen orsaf dân yn Ninbych, o dan neuadd y dref. Pryd bynnag bydden ni yn y dref, bydden ni’n galw heibio i chwilio am drysorau. Prynais sawl peth, ond fy ffefryn yw cwpwrdd dillad dynion o’r 1920au, gydag adran â gwydr sy’n cynnwys lle i ddal teis, a silffoedd ar gyfer crysau wedi’u startsio.

Ddiwedd yr 1990au, ces i thermomedr Galileo. Thermomedr gwydr lliwgar yw hwn, sy’n seiliedig ar ddamcaniaeth Galileo a sefydlwyd 400 mlynedd yn ôl, sef bod gallu gwrthrych â màs penodol i arnofio mewn hylif yn amrywio wrth i dymheredd yr hylif godi a gostwng oherwydd y newidiadau yn y dwysedd. Felly, yn syml, mae’r bylbiau gwydr yn mynd i fyny ac i lawr, a’r un isaf sy’n dangos y tymheredd.

Weithiau, y peth gorau yw rhoi’r teclynnau yma i’r naill ochr ac edrych ar y cymylau. Mae pobl cefn gwlad yn synhwyro’r tywydd, drwy sylwi ar beth sy’n digwydd o’u cwmpas. Byddai’r ffermwyr hŷn yn dweud bod tywydd drwg i ddod os nad oedden nhw’n gallu gweld yr Wyddfa ar draws y dyffryn. A ydy gwartheg yn eistedd pan mae’r glaw ar fin dod, o ddifrif? Bydd fy ieir i gyd yn rhedeg i gysgodi yn y cwt ychydig cyn iddi ddechrau bwrw glaw. Pa ddull bynnag sy’n well gennych chi, mae’r tywydd yn destun sgwrs ers talwm iawn, ac mae’r un peth yn wir am eleni. Dim ond amser a ddengys beth ddaw o ran y tywydd dros y misoedd nesaf.

**Hazel**

# Neges gan ein hoffeiriad

Daeth Vicky a fi i fyw i'r ardal ym mis Medi 2020 pan ges i fy nhrwyddedu gan Esgob Gregory yn eglwys St Sadwrn, Henllan. Felly rydym yma ers pedair blynedd ac yn anffodus mae'n amser ffarwelio wrth i fi ateb alwad Duw i fod yn Gaplan ym Myddin Prydain. Mae byw yma a dod i adnabod pobl wedi bod yn hyfryd iawn. Bydd seibiant byr yn fy nghyfrifoldeb fel offeiriad dros rai o eglwysi'r Ardal Genhadu, a thîm ehangach o glerigwyr yn gofalu amdanyn nhw. Gobeithio y bydd offeiriad newydd yn cael ei benodi cyn bo hir.

Mae darn arbennig o emosiynol yn y Beibl pan mae Paul, a sefydlodd nifer o'r eglwysi cyntaf erioed, yn ffarwelio â rhai o hynafgwyr yr Effesiaid (Actau 20: 17–38). Maen nhw'n penlinio ar y diwedd ac yn crio gyda'i gilydd, yn fwy na thebyg oherwydd bod Paul yn ymwybodol o'r peryglon a oedd o'i flaen. Roedd wedi dweud wrth yr Effesiaid na fydden nhw'n ei weld eto.

Mae sawl swyddogaeth i'n gwaith fel offeiriadon, ond yr un pwysicaf yw dangos Iesu. Rydw wedi bod bod yn rhan o weinidogaeth fawr ac yn ddiolchgar mewn sawl ffordd am sut yr ydym wedi tyfu fel teulu yn eich plith. Braint y swyddogaeth hon yw teithio gyda phobl drwy'r cyfnodau da a drwg. Wrth gwrs, gwneir hyn yn enw Iesu ac er ei fwyn. Hoffwn dynnu eich sylw at adnod arall, Ioan 12: 21 a'r hyn mae'n ei ddweud, yn syml yw: Daeth y rhain at Philip, a oedd o Bethsaida yng Ngalilea, a gofyn iddo, "Syr, fe hoffem weld Iesu."

Ysgythrodd un offeiriad y cyfeiriad at hyn ar du mewn ei bulpud fel na fyddai byth yn anghofio pwy rydyn ni am bwyntio ato, pwy rydyn ni'n ei gyhoeddi. Mae pawb sy'n dod i'r eglwys yno er mwyn cyfarfod ag Iesu. Pan mae hyn yn digwydd ac rydych chi'n parhau i geisio cael eich meithrin yn y darganfyddiad sydd wedi'i phlannu ein bodolaeth fel bodau dynol, mae eich bywyd yn newid er gwell. Yn bennaf oll i ofalu am rai anghenus, chwilio am y rhai sydd ar y cyrion, rhyddhau pobl o bethau bywyd sy'n eu carcharu nhw.

Mae Llandyrnog yn gymuned dda gyda llawer o gariad a dymuniad i barhau i wella er lles pawb yn eu cymuned eu hunain. Wrth dreulio rhagor o amser gyda Iesu, byddwn yn gallu ymestyn hyn a gofalu hyd yn oed yn fwy am eich gilydd a'r cymunedau yn yr ardal ehangach hefyd. Boed i Dduw roi'r gras i chi faddau i'r rheini mae'n anodd i chi faddau iddyn nhw, a charu pawb, wrth i ni gael ein gwahodd gan Iesu, teuluoedd, ffrindiau a dieithriaid fel ei gilydd.

Pob bendith Duw i chi yn y dyfodol a daliwch ati i weddïo drosof fi, fel y byddaf i'n parhau i weddïo drosoch chi.

**Y Parchedig Martin Pritchard**
**Offeiriad ardal genhadu Dinbych**

**Becky Gittins, AS Dwyrain Clwyd**
becky.gittins.mp@parliament.co.uk

**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:**
Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies (cofnodion), Ann ac Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams, Jane Borthwick.
Anfonwch erthyglau neu newyddion at llandyrnognews@gmail.com

# Cyngor Cymuned Llandyrnog

Materion a drafodwyd yng nghyfarfod 16 Gorffennaf:

- Cyflwynodd y Cyngh. Butler fasgedaid o flodau i'r Cyngh. Griffith i ddiolch iddi am ei chyfnod hir yn Gadeirydd y Cyngor Cymuned.
- Daeth swyddog cefnogi cymuned yr heddlu, SSCH Matthew Evans, i roi cyflwyniad am weithgareddau yn yr ardal ers 1 Mehefin. Riportiwyd cam-drin ar-lein drwy gyfryngau cymdeithasol, a chynnydd mewn defnyddio cerbydau modur yn anghyfreithiol ar y llwybr ceffylau ger Moel Arthur. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn mynd i ddod i'r ardal yn amlach dros y penwythnos.
- Roedd materion a drafodwyd â'r SSCH yn ystod y cyfarfod yn cynnwys pryderon am yrru'n rhy gyflym o gwmpas ardal Green Farm, a thractorau mawr ddim yn cadw at 20mya. Anogodd SSCH Evans bobl i hel tystiolaeth, e.e. nodi rhifau cofrestru rhai sy'n gwneud hyn yn aml, a'u rhoi i Heddlu Gogledd Cymru.
- Er bod y Cyngor Cymuned wedi cytuno i dalu am ddŵr ar gyfer y rhandiroedd y tu ôl i Nant Glyd, nid yw Cyngor Sir Ddinbych wedi ateb eto.
- Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cytuno mewn egwyddor i osod mainc gyferbyn â'r hen hufenfa, ac rydym yn disgwyl y penderfyniad terfynol. Yn y cyfamser, y Clerc i ofyn am bris i osod sylfaen concrit tra mae'n disgwyl am benderfyniad ar y cais am drwydded i osod y fainc.
- Y gobaith oedd cynnal cyfarfod mis Gorffennaf fel cyfarfod hybrid er mwyn galluogi cynnal cyfarfodydd ar-lein yn y dyfodol, ond cafwyd anawsterau technegol.
- Bydd y Cyngh. Butler yn mynd i gyfarfod a fydd yn rhoi'r newyddion diweddaraf am gyllideb y Cyngor Sir, pan fydd Swyddogion ac Aelodau Arweiniol yn esbonio'r anawsterau ariannol mae'r Cyngor Sir yn eu hwynebu.



- Penderfynwyd trefnu helfa sbwriel ym mis Medi a holi a fyddai gan MHC ddiddordeb mewn helpu. Mae'n bosib cael benthyg offer, fel gwasgodau llachar a ffyn codi sbwriel.
- Penderfynwyd ceisio cael rhagor o aelodau drwy'r broses gyfethol a bydd ceisiadau'n cael eu gwahodd trwy gyhoeddi hysbysiadau.
- Riportiwyd nad oedd biniau eiddo yn y pentref a oedd i fod i gael 'casgliad â chymorth', wedi cael eu casglu ers pum wythnos. Roedd hyn yn cynnwys gwastraff bwyd. Bydd y Cyngor Cymuned yn cysylltu â'r Cyngor Sir ar unwaith i geisio datrys y broblem.
- Ni chafodd y cyfarfod yng Nghae Nant i drafod buddsoddiadau'r dyfodol ei chynnal oherwydd tywyd gwael. Bydd yn cael ei aildrefnu ym mis Medi.

**Rhifau ffôn defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068

Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)

Riportio baw cŵn 0800 2300 2345